

Un Llais Cymru

One Voice Wales

# Cyllid, Grantiau & Gosod y Praesept

## Cip cyflym

**Yn aml cynghorau cymuned a thref sydd agosaf at y bobl sy'n cael eu heffeithio fwyaf a gallant ymateb yn gyflym i anghenion cymuned. Mae cefnogaeth cynghorau yn ystod argyfwng costau byw yn gwneud lles uniongyrchol i bobl leol ac mae'n creu cymuned gryfach a mwy cydlynol.**

Mae **Ymgynghori & Chyfathrebu** yn hanfodol wrth ystyried codi praeseptau.

Mae **ymgysylltu â'r gymuned** yn meithrin tryloywder, ac mae'n galluogi pobl leol i ddeall y rhesymau am unrhyw gynnydd a sut fydd yn fanteisiol iddyn nhw trwy well gwasanaethau a phrosiectau.

Mae **ymgynghori effeithiol** yn rhoi llais i bobl leol wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ac mae cyfathrebu agored yn gallu lleihau unrhyw wrthwynebiad posib, creu ymdeimlad o rannu cyfrifoldeb, a gofalu fod penderfyniadau'r cyngor yn unol â buddiannau gorau'r gymuned.

Mae'r **Adroddiad Blynyddol** yn gyfle perffaith i gynghorau roi gwybodaeth i'w cymunedau am y gwaith maen nhw'n ei wneud.

Mae **Cyllidebu Cyfranogol** yn ddull ymgysylltu cymunedol ar gyfer cynghorau sydd am wneud eu cymunedau yn fwy cynhwysol. Gall hyn helpu i alinio dyraniad arian cyhoeddus ag anghenion cymunedol go iawn.

Gall **Cynghorau Gwirfoddol Sirol** lleol helpu gyda gwneud ceisiadau am arian

## Gwneud Cais am Grant

Mae gan grantiau gwahanol eu meini prawf a'u canllawiau penodol eu hunain. Mae gan gyfleoedd ariannu amrywiol ofynion, blaenoriaethau a chanllawiau unigryw y mae'n rhaid dod i wybod amdanynt. Mae'n hanfodol eich bod yn gofalu fod amcanion eich cyngor yn gydnaws â nodau'r cyllidwyr.

## Pethau i'w Cofio

1. **Gadewch ddigon o amser i wneud ceisiadau**
   Mae popeth yn cymryd mwy o amser nac rydych yn feddwl.
2. **Dewiswch eich cyllidydd yn ofalus**
   Darllenwch y canllawiau a'r meini prawf cymhwysedd a gofalwch fod y grant yn addas. Siaradwch â'r cyllidwyr, maen nhw yno i helpu a byddant yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.
3. **Gofynnwch am gyngor**
   Gofynnwch am gyngor gan sawl ffynhonnell. Crëwch rwydwaith, a siaradwch â chynghorau eraill, swyddogion grantiau yn eich Cyngor Gwirfoddol Sirol, a'r gymuned.
4. **Cynlluniwch**
   Dewch o hyd i'r angen. Chwiliwch am ysbrydoliaeth i feddwl am syniad sy'n haeddu cael ei ariannu; byddwch yn flaengar. Dywedwch stori afaelgar: rydych yn gwerthu syniad; gwnewch ef yn un cyffrous sy'n wynebu her ddifrifol
5. **Nodau ac Amcanion**
   Diffiniwch eich amcanion yn glir; gwnewch nhw'n SMART
   Beth ydych chi eisiau ei gyflawni?
   Pwy fydd yn elwa?
   Ymhle fydd yn digwydd?
   Erbyn pryd fydd yn cael ei gyflawni, neu erbyn pa ddyddiad neu gylch penodol?
   Sut fyddwch chi'n mesur ei gynnydd neu lwyddiant?
   Pam ydych chi ei angen?
6. **Cyllideb**
   Mae cyllidwyr yn disgwyl ichi fod yn dryloyw a chyfathrebu'n agored am sut fydd arian yn cael ei wario; dylech gynnwys yr holl gostau sydd ynghlwm wrth y prosiect a gwiriwch eilwaith fod y gyllideb yn gweithio.
7. **Partneriaethau a Chydweithrediadau**
   Gwnewch yn siwr fod gennych y partneriaid iawn a dangoswch sut allwch gyflawni'r prosiect gyda'ch gilydd
8. **Dogfennau Ategol**
   Bydd y rhain yn amrywio gan ddibynnu ar ofynion y grant; gofalwch eu bod yn benodol i'ch cyngor a'ch trefn lywodraethu

Gwyliwch yn awr

Cronfa Gymunedol Cymru Y Loteri Genedlaethol Pobl yn Arwain

## Gwybodaeth Ddefnyddiol

Efallai fod **BUSNESAU LLEOL** yn eich ardal yn darparu cyfleoedd cyllido cymunedol. Mae llawer o fanciau'r stryd fawr & archfarchnadoedd yn cynnig grantiau; gallant gefnogi a rhoi nwyddau; rhoi amser staff i wirfoddoli neu enwebu cefnogaeth i brosiectau lleol.

A oes yna gyfleoedd ariannol a106 & CIL yn ardal eich awdurdod lleol?

Gall Aelod Gynghorau ddefnyddio Pecyn Cyllid & Llywodraethiant a Chynllunydd Ariannol Un Llais Cymru

### Deddfwriaeth & Grymoedd

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a 50
Mae cyfrifo'r gyllideb yn golygu fod rhaid i awdurdod praeseptu (yng Nghymru) wneud cyfrifiadau ar gyfer pob blwyddyn ariannol

Mae Adran 102 (3) Deddf 1972 yn trefnu y gall cyngor lleol benodi pobl nad ydynt yn aelodau ohono ar bwyllgorau ac is-bwyllgorau

LDeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a 52(1) Cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol mae'n rhaid i gyngor cymuned baratoi a chyhoeddi adroddiad "adroddiad blynyddol") am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor yn ystod y flwyddyn honno.

**Gall grymoedd & chyfiawnhadau amrywio, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw.**
**Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai y bydd cynghorau eisiau cysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru lleol.**

admin@onevoicewales.wales

## Datblygu Partneriaethau

- Cydweithiwch â grwpiau cymunedol lleol i wella a darparu gwasanaethau hanfodol. Gall cynghorau ddarparu cymorth grant i gadw neu wella'r ddarpariaeth bresennol.
- Cytunwch ar gyfleoedd i wneud ceisiadau am arian ar y cyd a ffurfiwch bartneriaethau i gael gafael ar arian grant pan nad yw cynghorau'n gallu cynnig amdanynt.
- Datblygwch gyfleoedd gwirfoddoli er mwyn cyflawni prosiectau'r cyngor.
- Gwahoddwch aelodau'r cyhoedd i ymuno â phwyllgorau'r cyngor a chefnogi eich gwaith
- Sefydlwch grŵp ymgynghori cymunedol a gweithiwch gyda'ch gilydd i adnabod yr angen a chytuno ar atebion

## Enghreifftiau o Arfer Da

Cododd **Cyngor Cymuned Y Bontfaen gyda Llanbleddian** ei braesept i dalu am gynnydd yn ei gyfrifoldebau ac yn anghenion y gymuned

Mae **Cyngor Tref Cas-gwent** yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd yn dangos am beth fydd £1 yn talu.

Cynhaliodd **Cyngor Cymuned Pen-bre & Phorth Tywyn** gyfarfod cymunedol i roi gwybod am godiad yn y praesept

Datblygodd **Cyngor Cymuned Llanddulas & Rhyd-y-Foel** gynllun cymunedol i gefnogi cyllido ac adnoddau

Gwyliwch ein sesiwn Cyswllt Cynghorau Un Llais Cymru: Cyllid, Grantiau & Phraeseptau

## Gwybodaeth am Gyllid & Chyfleoedd Posib

Gwobrau i Bawb Y Loteri Genedlaethol

Sefydliad Cymunedol Cymru

Cyllido Cymru

**Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant ar 'Gwneud Ceisiadau Effeithiol am Grantiau'**

### Eisiau Gwybod Mwy?

Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:

CoLC@onevoicewales.wales

https://bit.ly/3KYHftK